OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Dredgeman Hill i Pope Hill, Hwlffordd, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 202-

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ******* 2025* |
| *Yn dod i rym* | ******** 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A4076, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Dredgeman Hill i Pope Hill, Hwlffordd, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 202- a daw i rym ar ***** 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dileu cyfyngiad**

**3.** Bydd y darnau o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt a leolir 867 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o gyffordd Parc Brickhurst hyd at bwynt a leolir 1800 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r un gyffordd honno yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Dredgmans Hill, Johnston, Hwlffordd, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 2005(**1**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig ***** 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 2005 Rhif 3234 (Cy. 240).